Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pum Heol

Heol Hen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5EZ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pum Heol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pum Heol |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 – Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 9.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 19.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/09/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]()

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a staff yn deall eu rolau yn glir. Maent yn gefnogol iawn i'w gilydd, ac yn gofalu'n dda am y disgyblion mewn amgylchedd cartrefol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda ac mae llawer yn hoffi dysgu gan ddyfalbarhau a chwilio am atebion drwy defnyddio gwahanol ffyrdd pan fyddant yn cael eu gwaith yn anodd.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cefnogi ac addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae athrawon wedi cynllunio cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn seiliedig ar themâu ysgol gyfan ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddweud beth hoffent ei ddysgu o fewn bob thema. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau priodol i ddisgyblion sy'n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u cymhwysedd digidol yn drefnus dros gyfnod. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn y medrau hyn. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu darnau etynedig nac iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm, ac nid yw'r ffordd mae disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddigon taclus.

Mae grwpiau llais y disgybl wedi eu sefydlu ac yn dechrau dylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi prynu offer a dylunio gwisg chwaraeon newydd ar gyfer yr ysgol.

Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda yn yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wella ac mae ganddynt gynlluniau priodol i wneud gwelliannau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod diwyg cyflwyniad gwaith disgyblion yn drefnus a thaclus

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson a phriodol i ysgrifennu’n estynedig mewn ystod o gyd-destunau

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gymhwyso’u medrau rhifedd mewn ystod o gyd-destunau ‘go iawn’ ar draws y meysydd dysgu a phrofiad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy’n rhan greiddiol o’i chymuned leol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cadarnhaol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol addas yn bodoli ynddi, sy’n canolbwyntio’n briodol ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae tlodi yn cael effaith arnynt, a’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn seiliedig ar gynnig addysg cyfrwng Cymraeg a phrofiadau helaeth i ddisgyblion mewn amgylchedd teg, cartrefol ac uchelgeisiol. Anelir at baratoi disgyblion i ddysgu'r ‘ffordd i fyw’, sef arwyddair yr ysgol, trwy ddatblygu eu medrau a'u gwerthoedd ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a’u galluogi i wynebu heriau'r dyfodol yn llwyddiannus fel dinasyddion lleol a byd eang.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn bwrpasol ac yn meithrin ynddynt agweddau cadarnhaol a pharchus tuag at amrywiaeth mewn cymdeithas ac yn eu hannog i ddeall pwysigrwydd tegwch a hawliau.

Mae athrawon yn darparu ystod o dasgau diddorol i ddisgyblion sy’n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn drefnus dros gyfnod. Maent yn holi disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio’u hymatebion i lywio’u dysgu ac i wirio’u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn caffael y medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith a gwneud cynnydd addas ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau llafar, gwrando a darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Mae’r mwyafrif yn siarad Cymraeg yn lled gywir, ond ar adegau, mae gan y lleiafrif dueddiad i droi i’r Saesneg yn ddiangen. Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol yn y ddwy iaith. Er hyn, cyfyng yw’r cyfleoedd a gânt i ysgrifennu’n estynedig mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ac nid yw diwyg cyflwyniad eu gwaith yn ddigon taclus.

Mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn y medrau hyn, ac yn eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau mathemategol. Er hyn, prin yw’r cyfleoedd a gânt i’w cymhwyso mewn sefyllfaoedd ‘go iawn’ mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y meysydd dysgu a phrofiad eraill. Mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau digidol ac yn eu cymhwyso’n hyderus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol god marcio sy’n cynorthwyo disgyblion i ddeall eu cryfderau a’r meysydd sydd angen iddynt eu gwella. Er hyn, nid yw adborth athrawon bob amser yn ddigon clir i sicrhau bod disgyblion yn deall yn union yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella’u

gwaith. Mae'r ysgol wedi dechrau darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion.

Mae'r holl staff yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. O ganlyniad, mae llawer yn cyfranogi'n fwriadus yn eu gweithgareddau. Mae llawer yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion drwy amrywiol ffyrdd pan fyddant yn wynebu anawsterau.

Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus fel tîm ysgol gyfan i ddarparu gweithgareddau sy'n seiliedig ar thema dymhorol yr ysgol. Maent yn sicrhau bod holl elfennau'r cwricwlwm yn cael eu cynnwys dros gyfnod a bod y gweithgareddau'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent am ei ddysgu o fewn pob un o'r themâu hyn.

### Ciplun: Sicrhau cyflawniad y cwricwlwm dros gyfnod

Mae athrawon yn trefnu themâu ysgol gyfan sy'n seiliedig ar un prif yrrwr, sef un o'r meysydd dysgu a phrofiad a dau is-yrrwr, sef dau faes dysgu a phrofiad arall bob tymor. Er enghraifft, mae'r thema 'Gwrthdaro a Datrysiad' yn seiliedig ar y dyniaethau fel prif yrrwr, a gwyddoniaeth a thechnoleg a'r celfyddydau mynegiannol fel is-yrwyr. Trwy amrywio'r rhain, maent yn sicrhau bod pob maes yn derbyn y sylw priodol dros ddwy flynedd.

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn fwriadus, sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u profiadau dysgu. Maent hefyd yn hyrwyddo safonau ymddygiad da sy'n meithrin hunanddisgyblaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda, yn hapus yn eu dysgu a'u chwarae ac yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae staff yn cydlynu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag ADY, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion, sy'n galluogi staff i fonitro'u datblygiad a chanfod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae ganddi hefyd drefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd, sy'n cyfrannu at y ffaith bod cyfraddau presenoldeb ar gynnydd ac yn uwch na'r ganran genedlaethol.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau arwain disgyblion yn briodol gan ddarparu cyfleoedd amrywiol iddynt ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am rediad dyddiol y siop ffrwythau, gan gynnwys archebu a chadw cyfrifon cyllid. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu eu medrau mentergarwch a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb. Mae grwpiau llais y disgybl wedi eu sefydlu ac yn dechrau dylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi

arwain gweithgaredd i werthuso adnoddau addysg gorfforol yr ysgol, eu gwella, a dylunio gwisg chwaraeon newydd.

Mae’r ysgol yn paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu drwy ddarparu cyfleoedd iddynt ymgartrefu wrth symud o un dosbarth i’r nesaf ynghyd â phontio i’r ysgolion uwchradd y mae’n eu bwydo.

Mae’r pennaeth, llywodraethwyr, athrawon a chynorthwywyr yn hynod gefnogol i’w gilydd a’r disgyblion ac yn sicrhau bod yr ysgol yn hafan deuluol a diogel i bob un. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau ac maent yn eu cyflawni’n llwyddiannus fel cyfeillion beirniadol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gydwybodol ac yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer gwella. Mewn amser byr, mae gan arweinwyr hanes lled llwyddiannus o wneud gwelliannau. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys codi presenoldeb a gwella mwynhad disgyblion tuag at ddarllen.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau staff yn glir i ddiwallu anghenion disgyblion, tra’n sicrhau cydbwysedd priodol rhwng eu bywyd gwaith a’u bywyd cartref. Maent yn rheoli perfformiad staff yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ac effeithiol iddynt, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Maent hefyd yn cymryd camau priodol i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu’r Gymraeg, lleihau effaith tlodi a’r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ADY.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er hyn, mae’r ysgol yn wynebu sefyllfa anodd o orwariant, ac maent yn cydweithio â swyddogion yr awdurdod lleol i geisio lleihau’r ddyled.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026